# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cofnodion (SJR(2)-11-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 6 Gorffennaf 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.05pm
### Lleoliad y cyfarfod: Canolfan Gwybodaeth ac Adnoddau White Rose, Tredegar Newydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Emyr Roberts | Cyfarwyddwr – yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Linda Whittaker | Cyfarwyddwr yr Adran Dai |
| Jo Jordan | Cyfarwyddwr yr Uned Diogelwch Cymunedol |
| Anne Stephenson | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Paul Dear | y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Dafydd Ifans | Prif Weithredwr, CAFCASS Cymru |

| | |
|---|---|
| Alison Davies | CAFCASS Cymru |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Virginia Hawkins | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Malephallo Mohasoa, Clerc Pwyllgor o Lesotho sy'n cysgodi'r tîm Clercio

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant

1.4 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papur: SJR(2)-11-06 (min)

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog

Papur: SJR(2)-11-06(p.1) Atodiadau 1 - 10

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu nodyn i Aelodau'r Pwyllgor ynghylch yr ystadegau adeiladau newydd a gyhoeddwyd ar 21 Mehefin 2006

Cytunodd y Gweinidog i anfon nodyn at Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y 5ed cylch o gynigion o dan Gronfa Connected y Swyddfa Gartref

Cytunodd y Gweinidog i anfon nodyn at Aelodau'r Pwyllgor yn amlinellu'r pryderon ynghylch y Mesur Diwygio Lles

Dywedodd y Gweinidog y byddai’n ysgrifennu llythyr arall at Tony McNulty AS yn y Swyddfa Gartref yn mynegi ei siom nad oedd yn cael ei chynnwys yn y trafodaethau ynghylch uno heddluoedd Cymru yn y dyfodol

Cytunodd y Gweinidog i egluro’r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau gyda’r HEES ar gyfer y dyfodol yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf

Cytunodd y Gweinidog i edrych a oes gwybodaeth ychwanegol ar gael ynghylch marwolaethau yn ystod y gaeaf ac adrodd yn ôl i’r Pwyllgor

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y ffaith bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu gwahardd o’r trafodaethau ynghylch uno heddluoedd Cymru yn y dyfodol

Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyflwyniad gan y Gwasanaeth Prawf

## Eitem 4: Cylch Cynllunio’r Gyllideb 2006

Papur: SJR(2)-11-06(p.2)

Nodwyd y papur

### Camau i’w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i gynnwys copi drafft o Adolygiad o’r Cynllun Cymorth Prynu gyda’i hadroddiad ysgrifenedig nesaf

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor ar gylch cynllunio’r gyllideb

## Eitem 5: Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol 2006

Papur: SJR(2)-11-06(p.3) Atodiad

Nodwyd y papur

### Camau i’w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i egluro’r sefyllfa ddiweddaraf ar effaith cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol Gweinidogol yn ei hadroddiadau ysgrifenedig e.e. pa mor ddefnyddiol ydynt a’u heffaith ar gyllidebau, a byddai hefyd yn ysgrifennu at ei chydweithwyr yn y Cabinet i awgrymu eu bod yn gwneud yr un modd

## Eitem 6: Rhaglen Waith yr Hydref a’r sefyllfa ddiweddaraf o ran Adolygiad Polisi

Papur: SJR(2)-11-06(p.4) Atodiad 1, 2

Cytunwyd ar y Rhaglen. Cytunwyd y byddai'n well gan y Pwyllgor gynnal adolygiad yn hytrach nag astudiaeth gwmpasu ar ddigartrefedd ymysg ieuenctid.

## Camau i'w cymryd

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gofyn i'w swyddogion baratoi papur yn awgrymu mannau allweddol i'r Pwyllgor eu hystyried a grwpiau i gymryd tystiolaeth ganddynt yn ystod ei adolygiad o ddigartrefedd ymysg ieuenctid yn y dyfodol.

## Eitem 7: Is-ddeddfwriaeth

Papur: SJR(2)-11-06(p.5) Atodiad 1, 2

Nodwyd y papur

## Eitem 8: Adroddiad Blynyddol CAFCASS Cymru

Papur: SJR(2)-11-06(p.6) Atodiad

Nodwyd y papur

## Camau i'w cymryd

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n clywed y sefyllfa ddiweddaraf gan Brif Weinidog Cymru ynghylch y mater o bensiynau ar gyfer staff CAFCASS Cymru

Cytunodd y Gweinidog i gynnwys manylion yn ei hadroddiad nesaf am ddyletswyddau, cyfrifoldebau a chyfansoddiad Pwyllgor Ymgynghorol CAFCASS Cymru sy'n cael ei sefydlu.

## Eitem 9: Cymunedau yn Gyntaf

Papur: SJR(2)-11-06(p.7) Atodiad A, B

Nodwyd y papur

## Camau i'w cymryd:

Cytunodd y Gweinidog i edrych ar y Cynllun Cymunedau yn Gyntaf a dychwelyd at y mater hwn yn yr hydref